

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

19 Tachwedd 2021

10.30 - 12.45

Yn bresennol:

Aelodau:

Ashok Ahir (Llywydd dros-dro)
Susan Davies
Quentin Howard
Lydia Rumsey
Janet Wademan

Lee Yale-Helms (Trysorydd)
Elaine Treharne
Elin Royles
Anwen Jones
David Hay

Tîm Gweithredol:

Pedr ap Llwyd	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
David Michael	Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd
Owain Roberts	Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd

Cofnodydd:

Carol Edwards	Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
---------------	--

Sylwedyddion:

Nicky Guy	CyMAAL
Illtud Daniel	Pennaeth Seilwaith Digidol
Sally McInnes	Pennaeth Cynnwys Unigryw a Chyfoes
Manon Foster Evans	Pennaeth Cynnwys Cyhoeddedig a Gwasanaethau Ymchwil
Dafydd Tudur	Pennaeth Ymgysylltu a Chynnwys Digidol
Emyr Phillips	Pennaeth Cyllid a Menter
Rob Lacey	Datblygu Cynnwys Cyhoeddedig
Nia Dafydd	Cyngor Partneriaeth
Annwen Isaac	Rheolwr Adnoddau Dynol
Rhian Evans	Uwch-swyddog Gweithredol

1.1 Croeso'r Cadeirydd, Sylwadau Agoriadol ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yr un cyntaf iddo ei gadeirio yn ei rôl fel Llywydd drosdro. Diolchodd i'r Ymddiriedolwyr am y sgysiau un i un a gafwyd dros yr wythnosau blaenorol, fyddai'n ddefnyddiol iawn ar gyfer gosod cyfeiriad i'r Llyfrgell dros y misoedd nesaf. Yn deillio o'r sgysiau hynny, mi fydd cynllun gwaith yn cael ei ddrafftio ar gyfer y Bwrdd ac yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Ionawr.

Mae gan y Bwrdd rôl bwysig i symud yr Adolygiad Teilwredig yn ei flaen, ac erbyn dechrau 2022, y bwriad yw creu un cynllun gweithredu ar gyfer y sefydliad sy'n cynnwys argymhellion yr Adolygiad Teilwredig, gofynion llythyr cylch gorchwyl Llywodraeth Cymru, ac amcanion a gweithrediadau'r strategaeth newydd a lansiwyd ar 18 Tachwedd.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenllian Lansdown Davies, Carl Williams a Mike Cavanagh.

1.2 Datgan Buddiannau sy'n berthnasol i'r agenda

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant oedd yn berthnasol i'r eitemau ar yr agenda.

1.3 Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 17 Medi 2021 a thrafod materion yn codi

Cymeradwywyd y cofnodion yn amodol ar gywiro'r canlynol ar dudalen 3;

“Yr her allweddol yr oedd y Llyfrgell yn ei hwynebu ar y pryd oedd bodloni'r gwariant cyfalaf ar gyfer mis Mawrth 2021” – angen cywiro'r dyddiad i 2022.

Materion yn codi

Dogfen Fframwaith – bydd y fersiwn derfynol yn cael ei chyflwyno i gyfarfod mis Ionawr o'r Bwrdd

Bathodynau ar gyfer yr Ymddiriedolwyr – mae hyn ar waith.

Ymgyrch y Llywydd a'r Is Lywydd – cafwyd diweddariad gan Nicky Guy, a hysbysodd yr aelodau bod nifer o geisiadau wedi eu derbyn, ond bod y Dirprwy Weinidog wedi penderfynu ail redeg yr ymgyrch i geisio cynyddu amrywedd, yn arbennig ar gyfer ymgyrch y Llywydd. Y gobaith yw medru cyfweld yn ystod mis Ionawr ar gyfer y ddwy swydd, ac yna bydd y sawl a benodir i rôl y Llywydd yn ymddangos o flaen Pwyllgor Craffu'r Senedd ym mis Mawrth.

CYFLWYNIAD

Richard Newton, Richard Newton Consulting – *An external review of the National Library of Wales' potential for generating commercial income*

Roedd yr adroddiad, a gomisiynwyd gan y Llyfrgell fel un o argymhellion yr Adolygiad Teilwredig, yn ymchwilio i botensial y Llyfrgell i ddatblygu cyfleoedd codi incwm masnachol. Cydnabu'r adroddiad fod potensial i ddatblygu'r maes yma, er bod yna sialensiau i'w goresgyn i gyflawni hyn.

Diolchwyd i Richard Newton am ei adroddiad cynhwysfawr a defnyddiol, sy'n gosod sylfaen i'r Llyfrgell ddatblygu'r maes yma, a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Llyfrgell hefyd ar fin comisiynu adroddiad ar ei thraweffaith economaidd a'i photensial fel cyrchfan twristiaeth, ac mae'n bosib y bydd gorgyffwrdd rhwng yr adroddiad yma ac adroddiad Richard Newton. Awgrymwyd felly y dylid aros i dderbyn yr ail adroddiad, a thrafod y ddau ar y cyd.

Atgoffwyd yr aelodau bod trafodaethau hefyd yn digwydd rhwng partneriaid Cymru Hanesyddol ar ddatblygu llwyfan e-fasnach ar y cyd i'r cyrff, a gall hyn effeithio ar gynlluniau'r Llyfrgell.

Adran 2 Adroddiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd

Diolchodd y Prif Weithredwr i Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, Ymddiriedolwyr a swyddogion Llywodraeth Cymru am eu mewnbwn i lansiad y strategaeth y diwrnod blaenorol.

Mae Cyngor Tref Aberystwyth yn bwriadu cyflwyno cais i UNESCO ar gyfer enwebu Aberystwyth a Cheredigion i fod yn un o 'ddinasoedd llên' UNESCO yn 2023. Mae'r Llyfrgell yn aelod o'r pwyllgor gwaith ynghyd â Phrifysgol Aberystwyth, Cyngor Sir, Cyngor Tref Aberystwyth, Cyngor Llyfrau a'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd. Oherwydd pwysigrwydd Aberystwyth ym myd y llyfr a llenyddiaeth fe fydd pwyslais y cais ar lyfrau, darllen a chreadigrwydd llenyddol. Petai'r cais yn llwyddiannus, byddai'n rhaid sicrhau bod unrhyw weithgareddau y byddai'r Llyfrgell yn ymgymryd â hwy'n alinio gyda'n cynllun strategol, ond byddai ennill statws "Dinas Llên" yn fantais i fedru hyrwyddo'r Llyfrgell.

Rydym mewn trafodaethau i sefydlu Canolfan Clip ym Merthyr Tydfil, ac mae hyn wedi ei gytuno mewn egwyddor – byddai hyn eto yn fanteisiol i'r Llyfrgell gan nad oes archifdy ym Merthyr bellach.

Mae'r Rhondda Tunnel Society yn paratoi cais i'r Loteri am gyllid i ail agor twnnel Gelli Felyn, ac mae'r Llyfrgell yn trafod y posibilrwydd o osod arddangosfa yn y ganolfan groeso yno.

Mae'r tri phwynt uchod yn amlygu parodrwydd y Llyfrgell i bartneriaethu a chael presenoldeb mewn rhai ardaloedd ble nad ydym yn weledol ar hyn o bryd.

Mae'r Llyfrgell yn bwriadu darparu ardal ar gyfer gofod chwarae a darllen i blant, ac yn gobeithio cwblhau'r gwaith cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Er bod yr amserlen yn heriol, sicrhawyd yr aelodau y bydd barn defnyddwyr yn cael ei ystyried wrth ddatblygu'r gofod yma.

Mae'r Llyfrgell yn ymrwymedig i amrywedd, ac mae gweithdai i "ddatgoloneiddio ein harferion gwaith" wedi eu peilota ar y cyd gydag lechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Abertawe, sy'n rhoi cyfle i staff weithio gyda staff eraill o gefndir lleiafrifol mewn sefydliadau eraill. Yn arwain ymlaen o hyn, mi fydd swydd yn cael ei hysbysebu cyn hir er mwyn datblygu casgliadau amrywiol y Llyfrgell.

Adran 3 Materion Strategol

3.1 Cynllun Gweithredu'r Adolygiad Teilwredig

Diolchodd y Prif Weithredwr am gefnogaeth yr Ymddiriedolwyr yn y sesiwn gaedig fydd yn golygu medru mynd i'r afael yn benodol ag argymhellion 21 a 22 yn yr Adolygiad, a sicrhau bod strwythur staffio gwydn yn ei le i gyflawni'r strategaeth newydd.

Fel y nodwyd yn barod, bydd cynllun gweithredu'r Adolygiad Teilwredig yn cael ei ymgorffori i gynllun gweithredu'r strategaeth o hyn allan yn hytrach na chael ei gyflwyno ar wahân.

3.2 Cylchoedd Gorchwyl Pwyllgorau'r Bwrdd

- (i) Archwilio, Risg a Sicrwydd**
- (ii) Perfformiad ac Ansawdd**
- (iii) Cyllid ac Adnoddau**

Diolchodd y Llywydd i gadeiryddion y pwyllgorau, Lee Yale-Helms a Janet Wademan, am eu gwaith yn diwygio'r cylchoedd gorchwyl ar gyfer y tri phwyllgor sefydlog, ac am adnabod enwau newydd ar eu cyfer sy'n cwmpasu'n well ystod gwaith y Bwrdd a'r Llyfrgell.

Mae'r cylchoedd gorchwyl newydd yn gosod ffocws clir ar gyfer y tri phwyllgor, heb unrhyw gôr gyffwrdd, ac yn cynnwys rhai meysydd oedd wedi eu hepgor o'r hen gylchoedd gorchwyl, megis adnoddau dynol, a'r adeilad.

Cymeradwywyd ail enwi'r pwyllgorau, a'u cylchoedd gorchwyl newydd.

3.3 Penodiadau

3.4.1 Penodi Ymddiriedolwr - diweddariad

Derbyniwyd 7 cais, ac yn dilyn proses hidlo ar 23 Tachwedd, bydd cyfweiliadau'n cael eu cynnal ar 1 Rhagfyr. Y panel cyfweild fydd Ashok Ahir (Llywydd dros dro), Elin Royles (Ymddiriedolwr), Catrin Hughes (Llywodraeth Cymru) a Rheon Tomos (aelod annibynnol).

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cychwyn yn y rôl ar 1 Chwefror 2022, yn dilyn cymeradwyo'r penodiad gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 28 Ionawr 2022.

3.4.2 Penodi aelod i'r Pwyllgor Perfformiad ac Ansawdd

Mae angen aelod i ymuno â'r Pwyllgor Perfformiad ac Ansawdd. Bydd y Clerc yn dilyn hyn i fyny gyda'r aelodau.

3.4.3 Penodi Ymddiriedolwr i'r Bwrdd Cynllun Pensiwn

Mae angen aelod i ymuno â'r Bwrdd Cynllun Pensiwn. Mi fydd y Clerc yn dilyn hyn i fyny gyda'r aelodau.

3.4.4 Cadarnhau penodiad aelod annibynnol y Pwyllgor Archwilio a Risg

Yn dilyn cystadleuaeth agored, penodwyd Huw Lloyd Jones yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Risg (Archwilio, Risg a Sicrwydd), a chymeradwywyd y penodiad hynny gan yr Ymddiriedolwyr.

Adran 4 Materion Corfforaethol

4.1 Adroddiadau Ariannol

4.1.1 Cyllideb Ddrafft 2022/23

Cyflwynwyd y gyllideb ddrafft gan Emyr Phillips.

Nid oes pryder ynglŷn â chyllideb 2022/23, ond mae pryderon ynglŷn â chyllideb 2023/24 oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn â faint o GIA bydd y Llyfrgell yn ei dderbyn.

Trafodwyd hyn eisoes yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio Ariannol, ble gofynnodd y Trysorydd am senario ble na fyddai'r Llyfrgell yn derbyn £1m o GIA ychwanegol yn 2023/24, ac effaith hynny ar y Llyfrgell. Mae cyfarfod arbennig o'r pwyllgor wedi ei drefnu ym mis Rhagfyr i gychwyn trafod hyn, unwaith bydd y gyllideb wedi ei chyhoeddi.

Nododd Nicky Guy y dylai'r gyllideb gael ei chyhoeddi ar 20 Rhagfyr, ond ei bod yn gobeithio medru rhannu ffigyrau mynegol gyda'r Llyfrgell cyn hynny. Roedd Llywodraeth Cymru wedi derbyn ei ddyraniad adolygiad gwariant yr wythnos yma, ac nid oedd cystal â'r disgwyl – 3

mlynedd ar gyfalaf (nid 4) a 3 mlynedd ar refeniw. Mae'n annhebygol y bydd mwy o gyllid ar gael, a'r disgwyl yw y bydd llai o arian cyfalaf ar gael at y dyfodol.

4.1.2 Cyfrifon Rheoli Medi 2021

Cyflwynwyd y cyfrifon rheoli gan Emyr Phillips, a nododd ei bod yn debygol y bydd tan wariant ar y gyllideb refeniw, ond bod risg sylweddol o gwmpas y gyllideb gyfalaf o fod yn methu gwario'r cyllid cyn diwedd Mawrth 2022. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau nad oes unrhyw hyblygrwydd o ran tan wariant ar gyfalaf.

Dim ond un tendr a dderbyniwyd ar gyfer gwaith ar yr Ystafell Bost, ac mae'r pris yn sylweddol uwch na'r hyn a amcangyfrifwyd. Medrir addasu'r tendr i ostwng y pris ac edrych ar opsiynau amgen i sicrhau gwerth am arian. Mae'r Llyfrgell wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru am eu mewnbwn ar y mater yma.

Mae buddsoddiadau'r Llyfrgell yn perfformio'n dda, gyda chynnydd yng ngwerth y farchnad o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2021.

4.2 Cydymffurfiaeth a Risg

4.2.1 Cofrestr Risg Corfforaethol

Amlygwyd y prif risgiau, sef y rhai ariannol, ar frig y rhestr, R1 – R3; mae R7, gwariant arian cyfalaf wedi ei drafod eisoes.

Mae 2 risg newydd wedi eu cynnwys, R8 a R9, sy'n ymwneud â phrinder adnoddau yn yr adran TGCh. Methwyd recriwtio i un swydd lefel uchel o fewn y Tîm Gweithrediadau, ac er bod dau berson wedi cael cynnig y swydd, mae'r ddau wedi tynnu yn ôl – diffyg cyflogau cystadleuol sy'n bennaf gyfrifol am hyn. Mae hefyd dwy swydd ar lefel is yn wag, ac ni chafwyd ceisiadau am rheiny yn dilyn hysbysebu.

Mae hyn yn peri pryder, a gall arwain at fethiant ym mharhad busnes y Llyfrgell, felly cytunwyd y byddai'r pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn rhoi sylw i hyn yn ei gyfarfod nesaf ar 17 Ionawr 2022, ac yn trafod pa opsiynau sydd ar gael i'r Llyfrgell geisio goresgyn hyn.

Adran 5: Adroddiadau o Bwyllgorau

5.1 Cofnodion Drafft y Pwyllgor Archwilio a Risg a gyfarfu ar 8.10.21

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan yr aelodau ynglŷn â chynnwys y cofnodion.

5.2 Cofnodion Drafft y Panel Adeiladau a gyfarfu ar 19.10.21

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan yr aelodau ynglŷn â chynnwys y cofnodion

5.3 Cofnodion Drafft y Pwyllgor Cynllunio Ariannol a gyfarfu ar 5.11.21

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan yr aelodau ynglŷn â chynnwys y cofnodion.

5.4 Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad 12.11.21 – diweddariad llafar

Cafwyd diweddariad llafar gan y Cadeirydd a nododd bod y pwyllgor wedi cael trafodaeth ddwys ynglŷn â gweithgareddau ymchwil y Llyfrgell a sut gellir alinio hynny gyda'r strategaeth newydd.

Mae'r Llyfrgell yn aros i dderbyn y llythyr cylch gorchwyl, ac unwaith bydd hynny wedi digwydd, bydd cynllun gweithredu manylach ynghyd â dangosyddion perfformiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y pwyllgor.

Adran 6: Unrhyw Fater Arall

Cyfarfod Diwrnod i Ffwrdd – dim cynnydd pellach ar hyn.

Asesiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd – bydd hyn yn cael ei gynnwys yng nghynllun gwaith y Bwrdd ar gyfer 2022.

Adroddiad Codi Incwm – cafwyd cadarnhad y bydd hwn yn cael ei drafod ar y cyd gyda'r adroddiad traweffaith a photensial y Llyfrgell fel cyrchfan dwristiaeth mae'r Llyfrgell ar fin ei gomisiynu.

Codi Arian – cytunwyd y byddai angen darparu papur ar strategaeth bresennol y Llyfrgell ar gyfer y person fydd yn cael ei benodi/phenodi i ymgymryd â'r gwaith codi arian o fewn y Llyfrgell.

Llongyfarchwyd Elaine Treharne ar gyhoeddi ei chyfrol *Perceptions of Medieval Manuscripts* yn ddiweddar.

SESIWN GAEEDIG A GYNHALIWYD RHWNG 9.30 - 10.15 - mynychwyd gan yr Ymddiriedolwyr, Prif Weithredwr, Nia Bennett, Effectus HR, ac Annwen Isaac, Rheolwr Adnoddau Dynol.

Crynodeb o'r materion a drafodwyd a phenderfyniadau a gymerwyd yn y sesiwn gaeedig.

Pwrpas y cyfarfod oedd i'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd egluro i'r Ymddiriedolwyr ei gynllun i ailstrwythuro'r Tîm Gweithredol, oedd wedi ei rannu ymlaen llaw gyda'r aelodau.

Cyflwynwyd y papur gan Nia Bennett, Effectus HR, oedd wedi gweithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr ar ddrafftio a llunio'r strwythur arfaethedig. Prif fwriad y strwythur arfaethedig oedd gosod strwythur priodol yn ei le i fedru cyflawni amcanion y strategaeth *Llyfrgell i Gymru a'r Byd* ac i ymateb i rai o argymhellion perthnasol yr Adolygiad Teilwredig. Bydd swydd ddisgrifiadau yn cael eu datblygu a'u sgorio yn unol â threfn arferol y Llyfrgell, a'r sgoriau hynny bydd sail unrhyw benderfyniadau bydd angen eu gwneud o ran lefel y swyddi. O ran cyllido'r strwythur, mae'n bosib na fyddai GIA yn ddigonol i gyllido'r swyddi ychwanegol, ac o ganlyniad, byddai'n rhaid defnyddio arian preifat y Llyfrgell.

Yn dilyn trafodaeth fanwl gan yr aelodau, penderfynwyd;

- Cefnogi'r cynllun ailstrwythuro arfaethedig a gyflwynwyd gan y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
- Gofyn i'r Prif Weithredwr ystyried gosod y swydd codi arian/incwm ar lefel uwch
- Gofyn i'r Prif Weithredwr ystyried ymhellach lleoliad yr Adran Isadeiledd Digidol o fewn y strwythur
- Ystyried gosod swyddi'r Cyfarwyddwyr ar yr un band cyflog, a pheidio gwahaniaethu rhyngddynt

PWYNTIAU GWEITHREDU'N DEILLIO O'R CYFARFOD

Eitem agenda	Gweithred	Cyfrifoldeb	Dyddiad gweithredu/disgwylir
	Drafftio cynllun gwaith ar gyfer y Bwrdd	Llywydd / Clerc	I'w gyflwyno i gyfarfod mis Ionawr ar 28.01.22
3.1	Drafftio un cynllun gweithredu sy'n cwmpasu gofynion y strategaeth, Adolygiad Teilwredig, a'r llythyr cylch gorchwyl	Prif Weithredwr / Owain Roberts	Erbyn cyfarfod mis Ionawr o'r Pwyllgor Perfformiad ac Ansawdd ar 25.01.22
4.2.1	Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau i drafod y risg o fethu apwyntio i swyddi TGCh, ac ystyried opsiynau i oresgyn hyn	Cadeirydd y Pwyllgor / David Michael	Yng nghyfarfod y pwyllgor ar 17.01.22